**ADRODDIAD Y PWYLLGOR BUSNES**

O dan Reol Sefydlog 13.1 (iii) mae gan y Pwyllgor Busnes y pŵer i wneud argymhellion i'r Cynulliad ar y ffordd y mae'n ymdrin â'i fusnes.

Cred holl aelodau'r Pwyllgor, ac eithrio Trefnydd y Cynulliad, y dylai Pwyllgorau Pwnc gyfarfod, fel yr arferent wneud yn ystod y Cynulliad Cyntaf, bob pythefnos.

Ers y ddadl ddiwethaf ar y Datganiad ynghylch yr Amserlen Gyfnodol ar 17 Mawrth 2004, mae'r Pwyllgor Busnes wedi derbyn ac wedi cymeradwyo chwe chais am gyfarfodydd ffurfiol ychwanegol.

Derbyniwyd y ceisiadau oddi wrth y Pwyllgorau canlynol -

- Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
- Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (3 chyfarfod)

Yn achos y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, defnyddid y ddau slot a oedd ar gael a nodwyd yn y datganiad ynghylch yr Amserlen Gyfnodol ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol ychwanegol. Cymeradwyodd Y Pwyllgor Busnes gais i gynnal trydydd cyfarfod ffurfiol ychwanegol ddydd Mawrth 29 Mehefin.

Mae'r Pwyllgor yn dymuno cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cynulliad wrth iddo ystyried y Datganiad newydd hwn ynghylch yr Amserlen Gyfnodol.

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**
**Mehefin 2004**